Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Pecyn Cymorth Esgeuluso Plant Amlasiantaethol

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Nifer yr achosion o esgeulustod .......... 3
Pam mae Pecyn Cymorth Esgeulustod yn bwysig? .......... 3
Beth yw esgeulustod? .......... 4
Beth yw'r ffactorau risg cyffredin? .......... 5
Egwyddor arweiniol sy'n cefnogi'r defnydd o'r Pecyn Cymorth Esgeulustod .......... 6
Pwy fydd yn defnyddio'r Pecyn Cymorth Esgeulustod? .......... 6
Sut byddwn ni'n gwybod os yw'r pecyn cymorth yn gweithio? .......... 7
Cydnabyddiaeth .......... 7
Pecyn Cymorth Esgeuluso Plant .......... 8
- Maes 1: Gofal Corfforol .......... 9
- Maes 2: Iechyd .......... 13
- Maes 3: Diogelwch a Goruchwyliaeth .......... 14
- Maes 4: Cariad a Gofal .......... 17
- Adolygiad .......... 22

# Pecyn Cymorth Esgeulustod Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro

## Cyflwyniad

Datblygwyd y pecyn cymorth amlasiantaethol hwn mewn ymateb i wybodaeth leol, adolygiadau ymarfer plant a chydnabyddiaeth y bwrdd bod plant sy'n dioddef esgeulustod yn agored i niwed, a bod esgeulustod yn un o feysydd anodd camdriniaeth i weithwyr proffesiynol ei adnabod. Yn aml mae patrymau esgeulustod, a gellir colli rhai agweddau. Dyna pam mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi datblygiad y pecyn cymorth hwn.

Ei nod yw helpu teuluoedd i gael y cymorth cynnar sydd ei angen arnynt a chreu ffordd i deuluoedd weithio gyda gweithwyr proffesiynol i nodi a deall esgeulustod, a gweithio mewn partneriaeth â nhw i alluogi newid cadarnhaol.

Gellir dod o hyd i gymorth ac arweiniad i weithwyr proffesiynol hefyd o'r canllaw ymarfer Cymru gyfan 'Diogelu plant rhag esgeulustod' sydd wedi'i wreiddio o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## Cyffredinrwydd esgeulustod

Yn ôl ffigurau ar gyfer Cofrestr Amddiffyn Plant Cyngor Caerdydd, roedd 164 o blant wedi’u cofrestru oherwydd esgeulustod ym mis Mawrth 2022. Ym mis Mawrth 2023, y ffigur hwn oedd 126.

Yn ôl ffigurau ar gyfer Cofrestr Amddiffyn Plant Bro Morgannwg, roedd 86 o blant wedi’u cofrestru oherwydd esgeulustod ym mis Mawrth 2022. Ym mis Mawrth 2023, y ffigur hwn oedd 88.

Ers 2002, esgeulustod yw'r rheswm mwyaf cyffredin i blentyn fod yn destun cynllun amddiffyn plant yn gyson yng Nghymru a Lloegr, fel yr adroddwyd gan yr NSPCC (Pa mor ddiogel yw ein plant, 2016). Ar gyfer 2015, roedd 45% o gynlluniau amddiffyn plant yn Lloegr o dan y categori esgeulustod. Mae hyn wedi dangos tuedd gyffredinol ar i fyny o tua 35% ers 2002.

Os yw plentyn yng Nghymru yn dioddef niwed sylweddol sy'n arwain at niwed difrifol a pharhaol neu farwolaeth, a bod cam-drin plant yn hysbys neu'n cael ei amau, dylid cynnal Adolygiad Ymarfer Plant (AYP). Adolygiad amlasiantaethol yw AYP i archwilio amgylchiadau'r digwyddiad a gwaith asiantaethau gyda'r plentyn a'i deulu. Mae'n darparu dysgu am sut y gellir gwella arferion amddiffyn plant amlasiantaethol a sut y gellir osgoi digwyddiadau tebyg. Rhwng 2017 a 2024, bu 25 adolygiad o fewn Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ymwneud â phlant. O'r rhain, roedd 11 yn ymwneud ag esgeulustod (44%) gyda 6 achos (24%) yn nodi Esgeulustod fel yr unig gategori o niwed a 5 achos (20%) lle roedd yn ymddangos mewn cyfuniad o fathau o niwed.




Mae dadansoddiadau thematig a wnaed yng Nghymru wedi nodi canfyddiadau pwysig mewn perthynas ag esgeulustod.

Roedd ymchwil a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd yn 2020 yn edrych ar 20 adolygiad Ymarfer Plant a gwblhawyd rhwng 2014 a 2019. Cynhaliwyd naw o'r Adolygiadau Ymarfer Plant o ganlyniad i farwolaeth plentyn, gydag achosion marwolaeth yn amrywio o ffactorau a oedd yn gysylltiedig â mathau meddygol a/neu fathau eraill o esgeulustod (gan gynnwys diffyg goruchwyliaeth), mabladdiad/merchladdiad (h.y. lladd plentyn) a hunanladdiad.

Cyhoeddwyd y dadansoddiad thematig diweddaraf o ddiogelu amlasiantaeth yng Nghymru, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) ac a gynhyrchwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Fetropolitan Manceinion a Phrifysgol Lerpwl, ym mis Hydref 2023. Edrychodd ar 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y chwe Bwrdd Diogelu yng Nghymru rhwng 2013 a 2021 gan ddatgelu sawl ffactor risg posibl sydd angen eu monitro, gan ddarparu argymhellion i Fyrddau Diogelu. Un o'r nifer o risgiau a nodwyd yn y dadansoddiad oedd mai gwendidau mwyaf cyffredin y plant oedd cam-drin emosiynol, esgeulustod a byw mewn amodau cartref gwael.




Nod y pecyn cymorth hwn yw cyd-fynd ag argymhellion allweddol yng nghyhoeddiad diweddar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol diweddar, *Risg, Ymateb ac Adolygiad: Diogelu Amlasiantaethol: Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru 2023. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn wedi dangos bod "sawl adolygiad ymarfer plant wedi nodi problemau ynglŷn ag ansicrwydd ymarferwyr o ran pa fanylion y dylid adrodd amdanynt i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir" mewn perthynas ag esgeulustod ac amodau cartref. Gwnaed argymhelliad i Fyrddau Diogelu "adolygu sut mae esgeulustod a phryderon ynghylch amodau cartref yn cael eu cofnodi, a phwy sy'n cymryd cyfrifoldeb am y pryderon hyn... Yn unol ag argymhellion eraill yn yr adolygiad hwn, mae angen ystyried yr effaith ar bob aelod o'r teulu yn yr asesiadau a'r recordiadau hyn."*

## Pam mae Pecyn Cymorth Esgeulustod yn bwysig?

Mae'r pecyn cymorth hwn yn nodi'r dull strategol o fynd i'r afael â a lleihau effaith esgeulustod ac yn nodi'r egwyddorion allweddol y dylid ymgymryd â gwaith mewn perthynas ag esgeulustod oddi tanynt. Mae'n nodi meysydd gwaith blaenoriaeth allweddol i wella ein hymateb cyfunol i esgeulustod. Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu dull cydlynol o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae nifer cynyddol o blant sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant oherwydd esgeulustod, yn genedlaethol ac yn lleol.

Nid yw plant a phobl ifanc sy'n cael cynnig Cymorth Cynnar gyda dangosyddion esgeulustod bob amser yn cael eu diffinio a'u cydnabod yn glir fel rhai sy'n profi esgeulustod. Mae gan wasanaethau cyffredinol ac ymyrraeth gynnar rôl hanfodol wrth nodi a mynd i'r afael ag anghenion diogelwch y plentyn, ar y cyd ag asiantaethau partner a gofal cymdeithasol plant. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn ar y cyd â phartneriaid amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yng Nghaerdydd a'r

Fro. Trwy feddu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae esgeulustod yn ei olygu ar draws yr holl wasanaethau ac i rieni, bydd dull amserol a chyson o nodi esgeulustod a lleihau ei effaith, yn ogystal â chefnogi rhieni ac ymarferwyr i nodi a gweithio gyda'r meysydd angen sydd wedi'u nodi ynghyd â'r teulu.

Gall esgeuluso plant a phobl ifanc gael effaith sylweddol ar iechyd a datblygiad y plentyn. Mae esgeulustod yn debygol o achosi trallod i blant a phobl ifanc, gan arwain at ganlyniadau iechyd, addysgol a chymdeithasol gwael ac o bosibl at farwolaeth. Gellir effeithio ar alluoedd plant i wneud ymlyniadau diogel a lleihau eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad yn yr ysgol. Mae eu hiechyd a'u lles emosiynol yn aml yn cael eu peryglu, a gall hyn effeithio ar eu llwyddiant yn ystod oedolaeth, gan gynnwys eu gallu i rianta yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae esgeulustod yn ffactor sy'n cyfrannu at farwolaeth plant.

## Beth yw esgeulustod?

Y diffiniad statudol o esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion sylfaenol plentyn yn gorfforol a/neu'n seicolegol, sy'n debygol o amharu'n ddifrifol ar iechyd a datblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd, er enghraifft camddefnyddio sylweddau pan fo'r plentyn yn y groth. Ar ôl geni plentyn, gall esgeulustod olygu bod rhiant neu ofalwr yn methu:

- Darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys ei wahardd o'r cartref neu ei adael)
- Amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol
- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio gofalwyr annigonol)
- Sicrhau y gall dderbyn gofal meddygol neu driniaeth briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn. (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, 2015)

Yn ogystal â'r diffiniad statudol, mae'n bwysig ystyried anghenion penodol plant sy'n aml yn cael eu cwmpasu o dan y term 'methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol'. Nododd yr Athro Jan Horwath (Child Neglect: Identification and Assessment, 2007) gategorïau ychwanegol i'w hystyried.

Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith mathau eraill):

- Esgeulustod meddygol
- Esgeulustod maethol
- Esgeulustod emosiynol
- Esgeulustod addysgol
- Esgeulustod corfforol
- Diffyg goruchwyliaeth ac arweiniad
- Esgeulustod o ran hunaniaeth: peidio â chydnabod neu ymateb i anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran diwylliant, crefydd, rhywedd a rhywioldeb.

## Beth yw'r ffactorau risg cyffredin?

Mae gwahanol gategorïau o ffactorau risg sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o esgeulustod mewn rhai teuluoedd. Gall y rhain fod yn un neu'n gyfuniad o'r ffactorau isod (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylid defnyddio barn broffesiynol bob amser).

**Ffactorau risg i blant:**

Gall rhai plant a phobl ifanc fod yn fwy agored i niwed nag eraill:

- Anabledd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Anghenion ymddygiadol ac emosiynol
- Salwch cronig
- Gofalwyr ifanc
- Babanod dan un oed
- Plant a anwyd yn gynnar, neu â phwysau geni isel iawn
- Plant nad ydynt gartref
- Plant sy'n colli addysg
- Plant sy'n ceisio lloches a/neu sy'n ffoaduriaid - lle mae rhwystrau iaith
- Y glasoed
- Plant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt
- Plant sy'n derbyn gofal (sydd wedi'u lleoli gyda'u rhieni)
- Plant sy'n cael eu maethu'n breifat

**Ffactorau risg i rieni**

- Cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Salwch meddwl
- Carcharu
- Troseddoldeb
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Rhieni'n gwahanu
- Defnyddio cyffuriau ac alcohol (camddefnyddio sylweddau)
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod rhieni
- Diffyg profiad o rianta cadarnhaol yn ystod eu plentyndod eu hunain

**Ffactorau Risg Ehangach**

- Tlodi
- Diweithdra
- Wedi methu apwyntiadau
- Teuluoedd symudol iawn
- Cymorth teuluol gwael
- Gwrthwynebu ymyrraeth
- Cydymffurfiaeth ffug

## Egwyddorion arweiniol sy'n cefnogi'r defnydd o'r Pecyn Cymorth Esgeulustod

- **Canolbwyntio ar y plentyn** – Diogelwch, lles, iechyd, gwendidau ac anghenion ychwanegol plant yw'r prif flaenoriaethau ac mae plant wrth wraidd yr hyn a wnawn.

- **Llais plant/pobl ifanc** – Mae ymarferwyr yn adnabod y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw'n dda ac yn eirioli drostyn nhw. Lle na all plant leisio eu barn, mae gan ymarferwyr y

sgiliau a'r mewnwelediad sydd eu hangen i ystyried profiad y plentyn o fywyd pob dydd ac i eirioli ar ei ran.

- **Canolbwyntio ar ganlyniadau** – Er mwyn sicrhau ein bod yn deall y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud, mae angen mesur y gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn ôl effaith canlyniadau.
- **Cymorth cynnar** – Sicrhau bod arwyddion a symptomau esgeulustod yn cael eu cydnabod yn gynnar.
- **Dull seiliedig ar gryfderau** – Trwy adeiladu ar gryfderau, mae ymarferwyr yn gweithredu fel asiantau newid i gefnogi teuluoedd a chreu newid cynaliadwy i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc.
- **Dull teulu cyfan** – Bydd ymarferwyr yn gweithio ar y cyd â'r teulu a'r plant i nodi eu hanghenion cymorth ac i hwyluso newid.

## Pwy fydd yn defnyddio'r Pecyn Cymorth Esgeulustod?

Mae gan ymarferwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth ddarparu cymorth cynnar a grymuso rhieni i ofalu am eu teuluoedd. Ein dyhead yw y bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr proffesiynol (Iechyd, Addysg, Tai a Chymorth Cynnar) i gefnogi teuluoedd i wneud newidiadau.

Mae ymarferwyr yn allweddol ar gyfer:

- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol hirdymor â rhieni
- Annog rhieni i ofyn am help pan fydd problemau'n dod i'r amlwg am y tro cyntaf
- Siarad â phlentyn a'u rhieni a'u gofalwyr i ddeall pa gymorth sydd ei angen arnynt
- Rhannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu ag asiantaethau perthnasol
- Nodi pa wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i helpu teulu
- Monitro sefyllfa plentyn
- Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol uniongyrchol i blentyn a/neu ei rieni
- Cyfeirio teuluoedd at wasanaethau arbenigol eraill pan fo angen. Gall ymyrraeth gynnar lwyddiannus wella'r bond ymlyniad rhwng plant a'u gofalwyr, lleihau niwed a helpu plant i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol pan fyddant yn oedolion (Howe, 2011).

Bydd y pecyn cymorth esgeulustod hwn yn cynorthwyo pob ymarferydd i weithio gyda theuluoedd mewn ffordd amlddisgyblaethol gydlynol, sy'n cefnogi teuluoedd i wneud newidiadau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion eu plant.

## Sut byddwn ni'n gwybod os yw'r Pecyn Cymorth yn gweithio?

Bydd y gwerthusiad o ddefnydd y Pecyn Cymorth Esgeulustod yn seiliedig ar sawl ffactor:

- Faint mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer achosion esgeulustod
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu hyfforddiant esgeulustod
- Mwy o ymwybyddiaeth o esgeulustod
- Gwelliant o ran adnabod esgeulustod

- Ffigurau'r Gofrestr Amddiffyn Plant
- Nifer yr asiantaethau sy'n adrodd am ddefnyddio'r Pecyn Cymorth

Bydd pob asiantaeth yn adrodd am y defnydd o'r Pecyn Cymorth a bydd ganddi gynllun gweithredu unigol.

## Cydnabyddiaeth

Hoffai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ddiolch i'r bobl ganlynol a weithiodd gyda nhw ar y Pecyn Cymorth:

Arlette Brown, Emma-Jane Reynolds a Natasha Lelii, a ymrwymodd oriau lawer i'r prosiect hwn y mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ddiolchgar amdano.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch hefyd i Charlotte Westacott, Sammie Clinton, Treena Morris, Helen Anderson a Jason Redrup.

# Pecyn Cymorth Esgeuluso Plant

| | |
|---|---|
| **Enw'r plentyn/plant:** | |
| **Enw'r ymarferydd** | |
| **Asiantaeth:** | |
| **Dyddiad cwblhau'r pecyn cymorth hwn:** | |
| **Dyddiad adolygu:**<br>(Adolygu bob 4 i 6 wythnos) | |

| |
|---|
| ***Beth yw esgeulustod?*** *(Diffiniad y teulu)* |

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn:

Meysydd y mae'r pecyn cymorth yn eu cwmpasu: gofal corfforol, iechyd, diogelwch a goruchwyliaeth, cariad a gofal, ysgogiad ac addysg, cymhelliant rhieni, a newid.

Sylwer: mae'r blychau ar gyfer mewnbwn proffesiynol ac maent bob amser yn cael eu trafod â'r teulu a'u cytuno gyda nhw.

Mae adolygiadau i'w cynnal bob 4-6 wythnos e.e. o fewn cyfarfodydd craidd y grŵp (i'w haddasu i'r tîm, yr awdurdod lleol, y maes gwasanaeth penodol).

## Sgôr:

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae rhai neu'r holl anghenion yn cael eu diwallu, ac mae rhieni/gofalwyr wrthi'n ceisio cyfrannu at gymorth. |
| **Melyn** | Mae rhai anghenion yn cael eu diwallu, nid yw rhieni/gofalwyr yn cyfrannu at gymorth nac yn dangos cymhelliant i fod eisiau newid. |
| **Coch** | Nid oes bron unrhyw anghenion wedi'u bodloni, diffyg cydymffurfiaeth lawn neu maent yn ffugio cydymffurfiaeth. |

# Maes 1: Gofal Corfforol

| Gwyrdd | Melyn | Coch | Sgôr: | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwyd:** | | | | | |
| Yn gyffredinol iach a chytbwys, 5 y dydd, tŷ yn llawn bwyd, mae gan rieni wybodaeth am ddeiet maethlon cytbwys (caniateir trîts). | Dim ond rhai dewisiadau iach, mae rhywfaint o fwyd a rhai cynhyrchion ffres yn y cypyrddau, ond yn dibynnu ar siopau cludfwyd, yn barod i ddysgu am fwyd maethlon. | Dim digon o fwyd, dibynnir ar fanciau bwyd yn drwy'r amser, dim dealltwriaeth o fwyd maethlon. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Sefydlogrwydd tai a biliau:** | | | | | |
| Dim risg o droi allan, yn dygymod ar yr incwm y maent yn ei dderbyn. | Cynlluniau talu ar gyfer biliau, rhai ôl-ddyledion. | Symudiadau lluosog, risg o droi allan, dim sgiliau cyllidebu. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Golwg y plentyn yn gyffredinol (ar sail mwy nag un arsylwad):** | | | | | |
| Mae'r plentyn yn ymddangos ar uchder a phwysau iach, yn gwisgo dillad priodol glân, dim arogl, gwallt/ewinedd glân, cyfle i gael cawod/bath yn rheolaidd. | Mae'n ymddangos bod gan blentyn rhai ewinedd bysedd brwnt/gwallt heb ei olchi, rhai marciau ar ei ddillad, rhyw arogl corff 'arferol sy'n briodol i'w oedran'. Nedd dro ôl tro, rhieni'n ceisio cadw ar ben hyn. | Mae golwg flêr, heb ymolchi, afiach ar y plentyn, dillad brwnt/wedi torri, arogl annymunol. Nid yw'r rhieni'n dangos cymhelliant o ran hylendid nac yn cydnabod pwysigrwydd hylendid. Nedd dro ar ôl tro ac nid yw'r rhieni'n eu trin, ni welwyd unrhyw driniaeth. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Ansawdd y llety ac amodau'r cartref:**<br>**Cegin:** | | | | | |
| Llawr clir, offer yn gweithio, dim peryglon | Tystiolaeth o geisio glanhau, rhai llestri, | Llawr brwnt, annibendod a sbwriel | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| baglu, allanfeydd clir, arwynebau glân i baratoi bwyd, mannau storio bwyd glân/oergell lân, dim gwastraff gan gynnwys sbwriel a briwsion. | ychydig o le glân i baratoi bwyd, biniau weithiau'n llawn ond heb orlifo, dim peryglon gweladwy, mae allanfeydd yn hygyrch ond mae peth annibendod a rhai gwrthrychau ar y llawr. | ar yr arwynebau, offer brwnt gan gynnwys yr oergell a'r ffwrn ficrodon, llestri â llwydni arnynt, risg i ddenu anifeiliaid aflan – pryfed, llygod, llygod mawr. Sbwriel a bagiau sbwriel yn gorlifo yn y gegin, dim llestri a phlatiau glân i'w defnyddio. Poteli ddim yn cael eu sterileiddio. Dim hylif golchi/cynnyrch glanhau. | | | |
| **<u>Nodiadau:</u>** | | | | | |
| **Ystafell wely'r plentyn:** | | | | | |
| Dillad gwely glân, gwely sy'n briodol i'w hoedran, clo atal plant ar ffenestr yr ystafell wely, gofod llawr, mannau storio priodol, yn ystyriol o anghenion y plentyn, ystafell lân yn gyffredinol, dim sbwriel, llestri brwnt na byrbrydau/bwyd wedi'u gadael, drws ystafell wely, dim clo, goleuadau'n gweithio yn yr ystafell wely. | Dillad gwely priodol glân a matres addas sy'n lân, tystiolaeth o ymgais i lanhau, rhywfaint o le storio (tystiolaeth dillad glân ond wedi'u pentyrru), preifatrwydd gyda drws a llenni ar y ffenestri, dim peryglon, dim llwydni ar blatiau. | Dim dillad gwely/dillad gwely brwnt neu wedi'u baeddu. Dim gwely, matres aflan, arogl cryf, dim llenni na bleindiau, lleithder, ffenestr ystafell wely anniogel, drws wedi'i ddifrodi, tystiolaeth o anifeiliaid yn cysgu yn yr ystafell wely (mwy o bryder gyda babanod, mewn cotiau), dim lle storio, dillad brwnt wedi'u pentyrru, platiau brwnt. | | | |
| **<u>Nodiadau:</u>** | | | | | |
| **Ystafell ymolchi:** | | | | | |
| Brwsys dannedd a phast dannedd ar gyfer y plentyn, hylif golchi dwylo a sebon, toiled yn gweithio, tystiolaeth o lanhau, tystiolaeth o | Brwsh dannedd a phast dannedd, rhai cynhyrchion ymolchi, tystiolaeth o doiledau'n gweithio, ac mae cyfleusterau ymolchi, | Dim brwsh dannedd ar gael i'r plentyn, dim past dannedd, dim cynnyrch ymolchi, toiled a chawod wedi torri, sinc a bath yn | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gynhyrchion ymolchi, tywelion glân, tystiolaeth o hyfforddiant poti. | cawod, bath a thywelion ar gael. | gorlifo, dim tywelion glân i'w gweld, gwastraff dynol wedi'i nodi. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Ystafell fyw/cyntedd:** | | | | | |
| Lle cerdded clir, dim peryglon, man eistedd clir, dim sbwriel, dim arogl aflan, ystafell wedi'i hawyru, allanfeydd clir. | Rhai mannau eistedd clir, dim peryglon, lle cerdded ac allanfeydd clir, bron dim sbwriel, tystiolaeth ohono'n cael ei lanhau. | Llawr aflan, annibendod, dim man eistedd clir, sbwriel yn gorlifo, arogl annymunol, llwydni ar blatiau a bwyd, tystiolaeth o gelcio a dim lle, dim allanfeydd na llwybrau clir. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Gardd/ardal awyr agored:** | | | | | |
| Llwybrau clir, does dim carthion anifeiliaid i'w gweld, ardal glir i chwarae ynddi, sbwriel dan reolaeth drwyddi draw, dim ffensys wedi torri, wedi'i hamgáu ar gyfer peth preifatrwydd, wedi'i chynnal a'i chadw a dim gordyfiant, tystiolaeth o'r ardd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, tystiolaeth o garthion anifeiliaid yn cael eu casglu'n rheolaidd. | Llwybrau clir, rhywfaint o ardal glir i chwarae ynddi, nid yw'n gwbl amhosib gwneud defnydd ohoni, mae rhai carthion anifeiliaid yn amlwg ond yn cael eu codi'n bennaf, gardd yn cael ei chynnal a'i defnyddio, man diogel a dim biniau gwastraff dros ben, heb ei hamgáu'n llawn (gall fod yn risg i blant iau). | Llwybrau aneglur, carthion anifeiliaid a sbwriel yn amlwg ar draws yr ardd, gardd nad oes modd i blant ei defnyddio, cryn dipyn o ddeunydd peryglus sydd wedi gordyfu'n sylweddol, yn debygol o ddenu fermin a thystiolaeth o fermin, dim preifatrwydd, tystiolaeth o sigaréts, dim lle storio ac yn cael ei defnyddio ar gyfer y sbwriel dros ben a'r biniau. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| Ysgarthion: | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim tystiolaeth o ysgarthion anifeiliaid neu bobl mewn unrhyw ystafell neu'r ardd. Os bydd damwain yn digwydd yn ystod ymweliad, mae tystiolaeth o'r baw'n cael ei lanhau. Cael gwared yn briodol ar ysgarthion, dim byd ar y dillad gwely neu'r llawr. | Tystiolaeth o hyfforddi anifeiliaid, ond mae'r teulu'n ymwybodol o hyn ac yn cymryd mesurau ynglŷn ag ef; nid yw cewynnau brwnt yn cael eu rhoi i ffwrdd yn syth. | Ysgarthion anifeiliaid a dynol mewn unrhyw ystafelloedd, tystiolaeth ar ddillad gwely a lloriau, ysgarthion anifeiliaid neu ddynol yn yr ardd, dim gwaredu'r gwastraff yn briodol h.y. cronni cewynnau aflan heb eu rhoi mewn bin. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Atgyweirio/cynnal a chadw cyffredinol:** | | | | | |
| Amgylchedd diogel wedi'i nodi, dim tyllau mewn waliau, dim drws wedi torri na gwifrau agored, dim lleithder na llwydni. | Amgylchedd diogel cyffredinol, mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw, e.e. atgyweirio drysau, atgyweiriadau trydanol/plymio, difrod llawr – lloriau carped/pren, lleithder wedi'i weld (yn cymryd cyngor a rhagofalon i drin hyn), ymdrechion a wneir i rieni gadw'r lle mewn cyflwr gwell. | Amgylchedd anniogel, lleithder agored yn y rhan fwyaf o ystafelloedd, gwifrau trydan heb eu gorchuddio, difrod i'r llawr – anniogel, drysau wedi'u difrodi neu eu tynnu, ffenestri a mesurau diogelwch diffygiol (dim ymgais i ddatrys hyn gyda darparwr y tŷ), dodrefn wedi torri. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

# Maes 2: Iechyd

| Gwyrdd | Melyn | Coch | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydgysgu:** (gweithiwr i wirio trefniadau cysgu a dilyn canllawiau'r GIG) | | | | | |
| Dillad gwely/dodrefn addas, gwely/cot sy'n briodol i'r oedran, dim cydgysgu (yn unol â chanllawiau'r GIG), dim ysmygu yn y cartref. | Bod yn ymwybodol o beryglon cydgysgu a pheryglon cyffuriau ac alcohol ond nid arsylwir ar y rhain yn gyson, dim ysmygu yn y tŷ. | Yn anwybyddu cyngor ar welyau a dillad gwely, ystum gysgu'r babi ac ysmygu, nid yw'n cydnabod peryglon cydgysgu ac yn ddifater ynghylch cyngor. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Gofyn am gyngor ac ymyrraeth:** | | | | | |
| Yn rhagweithiol wrth geisio cymorth a chyngor i unrhyw feysydd sy'n ymwneud â materion cymdeithasol, apwyntiadau iechyd, ceisio ymyrraeth i atal materion pellach, yn barod iawn i ymgysylltu ac yn fodlon newid. | Yn ceisio gofyn am gymorth a chyngor, rhai rhwystrau sy'n atal ymdrechion rhagweithiol ond mae am wneud y newidiadau. Yn mynd i rai apwyntiadau iechyd ond mae angen bod yn gyson. | Dim ymdrechion i geisio cyngor, pryder bod plant yn colli apwyntiadau iechyd, yn ymddieithrio pan roddir cymorth, yn anwybyddu cyngor gan weithwyr proffesiynol neu’n ffugio cydymffurfiaeth. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Anabledd a salwch:** | | | | | |
| Yn rhagweithiol wrth geisio a mynd i apwyntiadau a gofyn am gyngor ac eiriolaeth dros les y plentyn, yn meddu ar ragolwg cadarnhaol ar hunaniaeth y plentyn ac yn cydymffurfio â'i anghenion sy'n ymwneud â'r anabledd. | Rhai ymdrechion i geisio apwyntiadau, rhywfaint o wybodaeth am anabledd a salwch y plentyn ac yn barod i ddysgu mwy i ddiwallu anghenion y plentyn ymhellach. Lle i wella o hyd ynghylch effaith yr anabledd/salwch ar y plentyn. | Yn dangos rhwystredigaeth ac yn rhoi bai ar y plentyn am ei anabledd, mae’n bychanu/dangos dim dealltwriaeth o anghenion iechyd y plentyn, nid yw'n ceisio cyngor a chymorth. Nid yw'n mynd i apwyntiadau sy'n ofynnol yn gyson. Yn gyffredinol, nid yw'n diwallu anghenion y plentyn. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

# Maes 3: Diogelwch a Goruchwylio

| **Gwyrdd** | **Melyn** | **Coch** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymwybyddiaeth a nodweddion diogelwch:** | | | | | |
| Ymwybyddiaeth o faterion diogelwch, deunyddiau oedolion amhriodol e.e. tanwyr ac alcohol y tu allan i gyrraedd, cannydd a chynhyrchion glanhau wedi'u cloi i ffwrdd, meddyginiaeth mewn mannau diogel, cyllyll cegin wedi'u storio y tu hwnt i gyrraedd plant, offer wedi'u storio mewn lle diogel, larymau mwg a $CO2$ yn gweithio. | Ymwybyddiaeth o rai materion diogelwch, mae rhai deunyddiau oedolion amhriodol i’w gweld e.e. meddyginiaeth ac | Nid yw deunyddiau amhriodol i oedolion yn cael eu storio'n ddiogel ac maent yn hawdd eu cyrraedd gan | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | alcohol, cannydd a chynhyrchion glanhau, tanwyr, offer, cyllyll ar gownter y gegin (y tu mewn i gyrraedd plant nad ydynt o’r oedran priodol), rhai mecanweithiau diogelwch plant, yn fodlon derbyn cyngor. | blant, alcohol, sylweddau ysmygu, meddyginiaeth nad yw'n cael ei chuddio'n ddiogel, arsylwyd ar eitemau cysylltiedig â chyffuriau, cyllyll cegin sy'n hygyrch i blant nad ydynt o’r oedran priodol, dim mecanweithiau diogelwch plant a dim ymwybyddiaeth bod hyn yn broblem o ran diogelwch, nid yw'n derbyn cyngor ynglŷn â hyn. | | | |
| **<u>Nodiadau:</u>** | | | | | |
| **Goruchwylio plentyn:** | | | | | |
| Goruchwylio plant yn briodol bob amser gan ystyried eu hoedran a’u datblygiad. Mae rhieni'n cymryd camau priodol i oruchwylio defnydd plentyn o ddyfeisiau yn gyfrifol, a chynnwys teledu a chyfryngau cymdeithasol sy'n briodol i'w hoedran. Yn rhagweithiol wrth geisio cyngor ynghylch goruchwyliaeth ar yr hyn sy'n briodol i'w hoedran. | Peth tystiolaeth o rieni yn goruchwylio defnydd plentyn o ddyfeisiau, a chynnwys teledu a chyfryngau cymdeithasol. Goruchwyliaeth yn cael ei darparu dan do ac yn yr awyr agored ond nid yw'n goruchwylio ac yn monitro'n gyson, nid yw’n goruchwylio'n briodol o ystyried oedran a datblygiad. Yn fodlon derbyn | Dim tystiolaeth o rieni’n goruchwylio defnydd plentyn o ddyfeisiau, a chynnwys teledu a chyfryngau cymdeithasol. Ychydig iawn o oruchwyliaeth, nid yw’n gyson ac mae’n rhoi’r plentyn mewn perygl. (Mae’n arwain at anafiadau rheolaidd oherwydd diffyg goruchwyliaeth.) Yn elyniaethus ac yn gwrthod | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cyngor ac arweiniad o ran hyn. | cyngor ynglŷn â hyn. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Trin y babi/ymateb i'r babi:** | | | | | |
| Yn ymateb i giwiau'r babi, yn enwedig os yw'r babi'n crio; rhieni'n ymateb yn weithredol. Mae'r babi'n cael ei drin mewn ffordd gariadus a thyner, gan ofalu am ardal y gwddf. Mae'r babi'n cael ei roi mewn lle diogel os oes angen i'r rhiant ei adael am gyfnod byr e.e. defnyddio'r toiled. Mae monitorau babi yn cael eu defnyddio, mae cymorth pan fo'r babi'n cysgu. Yn rhagweithiol wrth geisio arweiniad a chyngor. | Weithiau'n ymatebol i giwiau'r babi; pan fo'r babi yn crio, bydd y rhiant fel arfer yn ymatebol i ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw. Mae'r babi'n cael ei adael mewn lle diogel. Yn barod i dderbyn cyngor neu arweiniad. Mae'r babi fel arfer yn cael ei drin mewn ffordd gariadus. | Nid yw'r rhiant yn ymatebol i giwiau'r babi. Yn anghyson o ran diwallu anghenion y babi, nid yw'r ffordd o drin y babi bob amser i'w gweld yn ddiogel, mae'r rhieni'n blaenoriaethu eu hanghenion eu hunain dros anghenion y babi. Nid yw'n fodlon derbyn cyngor neu beidio â dilyn unrhyw arweiniad. Mae'r babi'n cael ei adael mewn lle anniogel. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Gofal gan oedolion eraill:** | | | | | |
| Mae'r rhiant yn sicrhau bod yr holl ofalwyr yn ddiogel ac yn briodol. Mae'r rhiant a'r plentyn bob amser yn gwybod eu lleoliad. | Mae'r plentyn yn cael ei adael gydag eraill nad ydynt o'r oedran priodol nac yn cael eu hystyried yn ddiogel, am ychydig oriau, y mae rhiant yn teimlo ei bod yn ddiogel. Mae'r plant yn cael eu | Mae'r rhiant yn gadael y plentyn gyda phobl anaddas; mae gwasanaethau plant a'r heddlu wedi bod yn gysylltiedig â'r person hwn a'i deulu/ei theulu. Nid yw'n gwybod ble mae'r plant. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gadael gydag oedolion sy'n anghyfarwydd. Yn barod i ystyried cyngor priodol gan wasanaethau plant a'r heddlu mewn perthynas â gofal y plant. Nid yw'n gwybod bob amser ble mae'r plentyn. | | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Ymateb i'r glasoed a hunanesgeulustod:** | | | | | |
| Yn rhagweithiol wrth annog ffordd iach o fyw, o ran bwyd/addysg/perthnasoedd/diogelwch/iechyd corfforol a meddyliol a hunanofal. Mae'r anghenion yn cael eu diwallu. | Yn dangos peth diddordeb yn hunanesgeulustod y plentyn, er bod angen cyngor ar sut i reoli hyn. Yn gallu beio'r plentyn ac nid yw'n rhagweithiol wrth ddod o hyd i'r cymorth cywir. Mae rhai anghenion yn cael eu diwallu. | Nid yw'n dangos unrhyw ddiddordeb ac nid yw'n cydnabod y pryderon difrifol am hwyliau isel y plentyn a chamfanteisio posibl, nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb ac nid yw'n cymryd unrhyw gyngor na chymorth gan wasanaethau iechyd, yr heddlu na phlant. Nid yw unrhyw anghenion yn cael eu diwallu. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Ymwybyddiaeth o draffig a diogelwch mewn ceir:** | | | | | |
| Mae rhieni'n deall ac yn dysgu diogelwch ar y ffyrdd i blant ar oedran priodol. Mae gan y plentyn ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd sy'n briodol i'w oedran. Pram/cadair wthio a sedd car briodol. Ymwybyddiaeth o oleuadau traffig a mannau diogel i groesi ffyrdd. | Mae'r rhieni wedi dysgu peth diogelwch ar y ffyrdd i'r plentyn. Mae gan y plentyn rywfaint o wybodaeth am | Dim ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd na diogelwch priodol mewn ceir a dim ymdrechion i | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddiogelwch ar y ffyrdd sy'n briodol i'w oedran neu'r gallu i oruchwylio diogelwch ar y ffyrdd. Mae gan y plentyn bram/gadair wthio a sedd car briodol. Bydd yn ceisio cyngor ar ddiogelwch ar y ffyrdd, e.e. dal dwylo, addysgu am oleuadau traffig. | newid hyn. Dim ymdrech i ddysgu diogelwch ar y ffyrdd i blant na'u cefnogi i ddysgu. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

## Maes 4: Cariad a Gofal

| Gwyrdd | Melyn | Coch | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Agwedd y rhiant/gofalwr tuag at y plentyn, cynhesrwydd a gofal:** | | | | | |
| Mae'r rhieni'n emosiynol gynnes yn gyson, gan dderbyn pob agwedd ar hunaniaeth, cyswllt corfforol a roddir os oes ei eisiau a'i angen, rhieni'n sicrhau'r ymdrechion gorau o wneud yn siŵr eu bod yn gwybod bod eu plentyn yn ddiogel, ymarfer gydag unrhyw ganllawiau i adlewyrchu oedran a dealltwriaeth y plentyn. Mae'r rhieni'n dangos eu cariad at eu plentyn yn weithredol, yn barod i ymgysylltu â | Mae peth cynhesrwydd emosiynol, yn cwestiynu credoau hunaniaeth plentyn ac nid yw'n deall ei ddewisiadau; yn anghyson gyda chymorth ac nid yw bob amser yn dilyn cyngor ac eto'n dweud eu bod am newid. Dealltwriaeth dda o bryd mae'r plentyn allan ac weithiau'n cysylltu â'r plentyn i gael ei leoliad. | Dim cysondeb o ran cynhesrwydd. Nid yw'r plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei glywed, ei fod yn bwysig neu ei fod yn cael ei garu; nid oes unrhyw ymdrech gydag agosrwydd corfforol neu emosiynol. Ychydig iawn o ymdrech i sicrhau bod y plentyn yn teimlo bod ei rieni'n ei garu ac yn gofalu amdano. Dim canmoliaeth. Yn aml heb wybod ble mae'r plentyn a dim ymdrechion i ddod o hyd i'r plentyn na chysylltu ag ef. Nid yw'n dymuno newid hyn na derbyn cyngor. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| chymorth pan fo'i angen. Cyfathrebu da rhwng y rhiant a'r plentyn. Mae'r plentyn yn cael ei ganmol ac mae'n derbyn gwobrau priodol gan y rhieni. | | | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Ffiniau:**(Mae cosbi corfforol yn drosedd; nid yw'n ffin briodol a byddai'n goch ar unwaith) | | | | | |
| Mae gan blentyn ffiniau diogel ac addas i'w oedran. Mae'r rhieni'n gofyn am arweiniad a chymorth os nad ydynt yn siŵr o'r ffiniau hyn. Mae'r rhieni'n ymwybodol o ffrindiau'r plentyn ac yn gallu cyrchu cyfryngau cymdeithasol y plentyn i fonitro. Mae cyfathrebu da rhwng y plentyn a'r rhiant i ddeall y ffiniau a bennwyd. Mae'r rhieni'n ceisio hyrwyddo dylanwadau cadarnhaol gan gymheiriaid; os oes digwyddiadau bwlio, maen nhw'n cymryd camau priodol e.e. cysylltu â'r ysgol neu ddarparwr cyfryngau cymdeithasol. | Ffiniau anghyson ac nid yw bob amser yn briodol o ran oedran a datblygiad. Fodd bynnag, mae'n deall y pwysigrwydd, yn blaenoriaethu pethau eraill, nid yw bob amser yn cadw at y cyngor a'r arweiniad a roddir. Weithiau mae'n gwirio grwpiau cyfeillgarwch a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhieni eisiau i blant gael perthnasoedd cadarnhaol, ond nid yw'n mynd ati i hyrwyddo hyn. Nid yw'r rhieni'n gwbl hyderus i ddelio â bwlio mewn ffordd briodol. | Mae rhieni'n anghyson ac yn darparu ffiniau llym neu ddim ffiniau. Efallai bod y plentyn yn teimlo'n nad ydynt yn gofalu amdano. Nid yw'r rhieni'n agored i gyngor ac arweiniad am hyn. Nid yw'r rhieni bob amser yn sicrhau bod eu plentyn yn ddiogel yn y gymuned neu ar-lein. Nid yw'r rhieni'n gyson o ran rhianta nad yw'n dangos gwelliannau. Nid yw'r rhieni'n ymwybodol o ddigwyddiadau bwlio ac nid ydynt yn cymryd unrhyw gamau. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Anifeiliaid:** | | | | | |
| Mae'r rhieni'n sicrhau goruchwyliaeth briodol o ran oedran a datblygiad o amgylch | Rhai mesurau diogelwch priodol, a rhai goruchwyliaeth briodol. Fodd bynnag, | Dim goruchwyliaeth o'r plant gyda'u hanifeiliaid, mae'r anifeiliaid yn effeithio ar lendid amgylchedd y | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| yr anifeiliaid. Mae’r rhieni'n ymwybodol o’r risgiau ac yn rhoi mesurau diogel ar waith. Mae’r rhieni'n cymryd cyfrifoldeb am yr anifail; gellir rhoi rhai tasgau i’r plentyn sy’n briodol o ran ei oedran a’i ddatblygiad. Nid yw’r anifeiliaid yn ymyrryd â glendid y tŷ. Mae anghenion y plentyn yn cael eu blaenoriaethu dros anghenion yr anifail. | mae’r rhieni'n cael trafferth gweld unrhyw risgiau ond yn gyffredinol maent yn dilyn cyngor ac arweiniad. Mae’r anifeiliaid yn cael rhywfaint o effaith ar lendid y cartref. | cartref, blew’r anifeiliaid, bwyd a baw’r anifeiliaid. Pryderon ynghylch golwg yr anifeiliaid. Nid yw’r rhieni'n derbyn y pryderon ac yn gwrthod dilyn cyngor ac arweiniad. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Dadleuon oedolion a thrais:** | | | | | |
| Nid yw'r plentyn yn gweld nac yn clywed dadleuon rhwng ei rieni. Nid oes gan blant brofiad o drais yn y cartref. Mae’r rhieni'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn deall effaith dadleuon ar y plentyn. Mae'r plentyn yn teimlo'n ddiogel gartref a does dim problem gyda throsglwyddiadau amser teulu. | Mae’r rhieni weithiau'n dadlau'n ymosodol. Mae’r rhieni'n sylweddoli'r effaith ar y plentyn ac maent yn barod i dderbyn cyngor ac arweiniad. Nid yw'n ymddangos bod dadleuon rhieni yn cael effaith ddatblygiadol ar y plentyn. | Mae’r plentyn yn profi lefel uchel o ddadleuon rhwng ei rieni a thrais domestig. Nid ydynt yn poeni am yr effaith ar y plentyn, ond fe fyddai effaith ar ddatblygiad y plentyn. Nid ydynt yn barod i gyfrannu at gymorth. | | | |
| **Nodiadau** | | | | | |
| **Ifanc - cyfrifoldebau gofalu** | | | | | |
| Nid oes gan blentyn unrhyw dasgau oedolyn, mae ganddo dasgau addas ar gyfer ei oedran a’i ddatblygiad. Nid yw cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith | Mae gan y plentyn gyfrifoldebau ychwanegol, ond mae'r rhain yn briodol ar gyfer ei oedran a’i ddatblygiad. Mae’r plentyn yn teimlo rhyw lefel o gyfrifoldeb heb | Mae cyfrifoldebau gofalu yn effeithio ar les a datblygiad y plentyn; nid yw anghenion y plentyn yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r plentyn yn ymgymryd â rôl rhianta ac mae'r rhieni’n ymgymryd â'r rôl bod yn | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| negyddol ar ddatblygiad y plentyn. Mae gan y plentyn ddigon o gymorth yn ei gyfrifoldebau gofalu. Mae anghenion y plentyn ei hun yn cael eu blaenoriaethu dros unrhyw gyfrifoldebau gofalu. Mae plentyn eisiau rôl mewn gofalu ac nid yw'n teimlo dan bwysau i wneud hynny. Mae'r rhiant yn derbyn Cymorth Gofalwr Ifanc. | effeithio ar ddatblygiad y plentyn. Cymorth cyfyngedig ond mae'n agored i gymorth ac arweiniad pellach. Weithiau mae hyn yn effeithio ar bresenoldeb y plentyn yn yr ysgol gan fod y plentyn yn mynd â'i rieni i apwyntiadau. Mae'r rhieni'n gwneud eu gorau glas i sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r rhieni'n derbyn bod gan y plentyn rai cyfrifoldebau gofalu; nid ydynt yn ymwybodol ond maent yn barod i gael atgyfeiriad am Gymorth Gofalwr Ifanc. | agored i niwed. Mae'n cael effaith fawr ar addysg y plentyn, ac mae'r rôl gofalwr yn cael ei blaenoriaethu. Mae'r rhieni'n gwrthod cymorth ychwanegol megis y plentyn yn cymryd rhan mewn Gofalwyr Ifanc. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Gwerthoedd cadarnhaol:** | | | | | |
| Mae rhieni'n annog gwerthoedd cadarnhaol ac eisiau bod yn barchus tuag at eraill; maen nhw hefyd yn deall pwysigrwydd datblygu ac yn rhoi cyngor a chymorth clir. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o ysmygu, yfed, perthnasoedd rhywiol a defnyddio cyffuriau. Nid ydynt yn caniatáu i'r plentyn wylio ffilmiau/rhaglenni teledu/gemau amhriodol ac yn monitro ei ddefnydd o'r rhyngrwyd. Maen nhw'n defnyddio rhwystrau rhyngrwyd | Mae'r rhieni'n ymwybodol o bwysigrwydd datblygiad y plentyn ond mae ganddynt ymwybyddiaeth amrywiol o ysmygu, yfed, cyffuriau a pherthnasau rhywiol. Maen nhw'n anghyson wrth helpu plant i feithrin gwerthoedd cadarnhaol, bod yn barchus tuag at eraill a dangos caredigrwydd a chymwynasgarwch. Mae'r gofalwr yn ymwybodol o'r angen i fonitro deunydd adloniant ond mae'n anghyson oherwydd anawsterau personol. | Nid yw'r rhieni'n dysgu gwerthoedd sy'n gymdeithasol dderbyniol ac yn ddibynnol ar oedran, maen nhw'n ddifater ynghylch yr hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg. Maen nhw'n ddifater ynghylch ysmygu, yfed, cyffuriau a pherthnasau rhywiol. Weithiau maen nhw'n annog y gweithgareddau hyn. Nid yw'r rhieni'n monitro gwylio deunyddiau amhriodol. Nid ydynt yn derbyn cyngor na chymorth ac nid ydynt yn ystyried bod hyn yn bwysig. Yn anfodlon dilyn canllawiau. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| sy'n briodol i'w oedran. | Mae'r rhieni'n rhoi peth cyngor a chymorth; maent hefyd yn croesawu cyngor proffesiynol i newid. | | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

| **Ymddygiad oedolion:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgyrsiau iach am deimladau, felly gall y plentyn fynegi ei deimladau ei hun yn ei amser ei hun. Fodd bynnag, nid oes pryderon am yr effaith ar les emosiynol y plentyn. Nid yw'r rhieni'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol? Mae alcohol yn y cartref yn cael ei storio'n ddiogel, lefel isel o yfed, peidio â meddwi wrth ofalu am y plentyn. | Weithiau, gall y plentyn fynegi teimladau ac emosiynau; mae'r rhieni weithiau'n annog hyn, ond yn ceisio peidio i adael i hyn gael unrhyw effaith ar y plentyn. Fodd bynnag, gall hwyliau isel y rhieni fod yn effeithio ar y plentyn, felly mae peth anghysondeb. Yn fodlon derbyn cyngor. Peth defnydd o alcohol a chyffuriau, ond nid yw hyn yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn. | Mae iechyd meddwl y rhieni'n effeithio ar les emosiynol y plentyn; maen nhw'n siarad am iselder a hunanladdiad. Mae'r rhieni'n defnyddio alcohol a chyffuriau fel mecanwaith ymdopi ac nid ydynt yn ymwybodol o'r effaith. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |
| **Cyllid:** | | | | | |
| Dim goblygiadau ariannol ac yn ymdopi ar yr incwm y maent yn ei dderbyn; mae anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. | Mae'n effeithio ar gyllid ond mae anghenion sylfaenol y plentyn yn cael eu diwallu. Mae'r rhieni'n derbyn cyngor a chymorth ynglŷn â'u cyllid. | Nid yw'r rhieni'n ymdopi ar yr incwm y maent yn ei gael, sy'n atal anghenion sylfaenol y plentyn rhag cael eu diwallu. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

# Maes 5: Ysgogiad ac addysg

| Gwyrdd | Melyn | Coch | |
|---|---|---|---|

| **Pob oedran** (cyn geni i 18 oed): | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae rhieni'n hyrwyddo ysgogiad ac addysg sy'n briodol i oedran y plentyn ar bob oedran i gefnogi datblygiad. Mae'r rhieni'n cydnabod pwysigrwydd addysg ac yn meithrin hyn yn eu plentyn ac yn annog ysgogiad y tu allan i'r ysgol. Maent yn deall pwysigrwydd symud a gweithgarwch ar gyfer yr ymennydd a'r corff. Mae'r rhieni'n hyrwyddo presenoldeb da yn yr ysgol. Mae gan rieni ddiddordeb yn yr ysgol a'r pethau mae'r plentyn yn eu hoffi. Fodd bynnag, mae'r plentyn yn cael anawsterau personol wrth fynychu'r ysgol; mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r teulu i gefnogi hyn. | Weithiau mae'r rhieni'n hyrwyddo ysgogiad sy'n briodol i oedran y plentyn i gefnogi eu datblygiad. Mae'r rhieni'n cydnabod pwysigrwydd addysg, ond yn ei chael hi'n anodd bod yn gyson yn hyn o beth; nid yw'r plentyn yn cyrraedd ei holl gerrig milltir datblygiadol. Mae'r rhieni'n fodlon derbyn cyngor ac arweiniad. Nid yw presenoldeb y plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. | Nid yw'r rhieni'n darparu ysgogiad neu'n hyrwyddo addysg. Nid yw'r rhieni'n gweld pwysigrwydd hyn; mae'r plentyn yn cael ysgogiad cyfyngedig sy'n briodol i'w oedran; nid yw'r plentyn yn cyrraedd ei gerrig milltir datblygiadol. Nid yw'r rhieni'n derbyn unrhyw gyngor na chymorth proffesiynol. Mae gan y plentyn bresenoldeb ysgol isel ac nid yw'n ymddangos bod gan y rhieni gymhelliant i annog y plant. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

# Crynodeb

| Maes | Crynodeb | Camau Gweithredu i'r Teulu |
|---|---|---|
| Maes 1 | | |
| Maes 2 | | |
| Maes 3 | | |
| Maes 4 | | |
| Maes 5 | | |

# Adolygu

| Gwyrdd | Melyn | Coch | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymhelliant y rhieni dros newid:** | | | | | |
| Mae'r rhieni wedi ystyried y trafodaethau a'r dadansoddiad ynghylch y pecyn cymorth esgeulustod. Mae'r rhieni wedi bod yn gweithio ar y meysydd sydd angen eu gwella. | Mae'r rhieni wedi cymryd peth o'r cyngor wrth ystyried rhywfaint o'r dadansoddiad. Mae'r rhieni wedi cadw at rai o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar ôl y cyfarfod adolygu, ond mae hyn wedi bod yn anghyson. | Nid yw'r rhieni'n dangos parodrwydd nac awydd i ystyried y dadansoddiad. Nid yw'r rhieni wedi bod yn gweithio trwy'r meysydd yr oedd angen eu gwella ac nad ydynt yn fodlon cymryd rhan mewn adolygiad arall o'r pecyn cymorth. Mae pob maes sydd angen ei wella yn parhau i fod yn achos pryder. | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | |

Rwyf wedi cwblhau'r pecyn cymorth hwn gyda'r gweithiwr proffesiynol.

_______________________________________________ (llofnodwyd gan riant/gofalwr)

Sylwadau'r rhiant/gofalwr mewn perthynas â'r pecyn cymorth wedi'i gwblhau:

_____________________________________________________________________________